Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Gymunedol Troed-y-rhiw
Stryd Archer
Troed-y-rhiw
CF48 4JQ

09/02/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Ionawr 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Gymunedol Troed-y-rhiw yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol a blaenoriaeth datblygu'r ysgol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion.

Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Darparu cyfleoedd i ddisgyblion iau ddatblygu i fod yn feddylwyr ac yn ddysgwyr annibynnol a chreadigol

- Mae arweinwyr wedi datblygu dull ysgol gyfan cydlynus sy'n hyrwyddo annibyniaeth a chreadigrwydd yn effeithiol ar gyfer disgyblion iau. Maent yn gweithredu hyn yn llwyddiannus trwy ddysgu proffesiynol pwrpasol, modelu effeithiol a monitro systematig, gan sicrhau arfer gyson ar draws y dosbarthiadau iau.
- Mae profiadau dysgu yn y dosbarthiadau iau yn gweddu'n dda i anghenion datblygiadol disgyblion. Mae staff yn cynllunio cyfleoedd difyr sy'n hyrwyddo archwilio, datrys problemau a dewis disgyblion o oedran cynnar.
- Mae oedolion yn hwyluso dysgu yn gynyddol. Trwy iaith glir a holi wedi ei ystyried yn dda, maent yn cynorthwyo disgyblion i fynegi eu meddwl a datblygu hyder mewn siarad a gwrando.
- Mae amgylcheddau dysgu yn groesawgar, yn drefnus ac yn bwrpasol. Mae adnoddau sydd wedi'u dewis yn ofalus ac ardaloedd sydd wedi'u diffinio'n glir yn galluogi disgyblion i ymarfer a chymhwyso'u medrau yn annibynnol trwy weithgareddau ystyrlon.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae arweinwyr a staff yr ysgol yn adolygu arfer yn rheolaidd trwy arsylwi a deialog broffesiynol. Maent yn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth, yn mireinio arfer ystafell ddosbarth, ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ddyfnhau a chymhwyso'u medrau ar draws ystod o gyd-destunau dilys.
- Mae disgyblion iau yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu. Maent yn gwneud dewisiadau ystyriol, yn gweithio'n dda gyda disgyblion eraill ac yn esbonio'u syniadau'n glir, gan ddangos hyder cynyddol o ran sut maent yn dysgu.

## Ymgorffori strategaethau llafaredd i gefnogi datblygiad ysgrifennu disgyblion

- Mae arweinwyr wedi sefydlu dull cyson i ddatblygu iaith lafar disgyblion. Mae staff yn deall hyn yn dda ac yn canolbwyntio'n glir ar ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion ar draws ystod o brofiadau dysgu.
- Ar draws yr ysgol, mae staff yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion fyfyrio ar eu syniadau, a'u rhannu, mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Maent yn modelu strategaethau effeithiol sy'n galluogi disgyblion i fynegi eu syniadau'n glir, gwrando ar safbwyntiau pobl eraill, ac ymateb yn barchus iddynt.
- Mae athrawon yn arwain trafodaethau pwrpasol am ddarllen disgyblion i ddyfnhau dealltwriaeth. Maent yn annog disgyblion hŷn i ystyried teimladau a chymhellion cymeriadau, sy'n cryfhau eu gallu i gasglu ystyr a chyfiawnhau eu meddwl.
- Mae athrawon yn holi disgyblion yn effeithiol i wirio eu dealltwriaeth ac i ddyfnhau'r dysgu. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion wella eu hysgrifennu ac yn cydnabod yr angen i gryfhau hyn ymhellach drwy ganolbwyntio'n fwy cyson ar fynd i'r afael â gwallau gramadegol.
- Mae staff yn datblygu geirfa disgyblion yn dda. Maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer iaith newydd a threfnu meddwl fel bod disgyblion yn gallu cymhwyso hyn yn fwy hyderus mewn ysgrifennu.
- Mae disgyblion yn defnyddio'r amgylchedd dysgu yn dda i gefnogi eu cyfathrebu. Mae ardaloedd chwarae rôl wedi'u cynllunio'n dda, acmae  adnoddau digidol yn helpu disgyblion i fynegi eu syniadau ac ysgrifennu'n annibynnol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/troedyrhiw-primary-school-cy/

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol